# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

**17 RHAGFYR 2019**

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P. Hughes-Griffiths (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
H. Parsons, Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau;
J. Hancock, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol Blaenllaw;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 11:00am – 11:15am**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 26 TACHWEDD, 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2019 yn gofnod cywir.**

## 3. CEISIADAU I'R GRONFA CYMORTH DIGWYDDIADAU.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo cynnig i wneud newidiadau i'r meini prawf sgorio a lefelau cyllido'r Cynllun Cymorth Digwyddiadau ar gyfer 2020/21.

Fel rhan o gyfres o gamau i ddatblygu cyfraniad digwyddiadau a gwyliau yn Sir Gaerfyrddin, roedd Cynllun y Gronfa Cymorth Digwyddiadau wedi dyrannu £20,000 ers 2017.

Nod y Cynllun oedd darparu cymorth ariannol i ddigwyddiadau yn y Sir a oedd yn gallu dangos cyfraniad at yr amcanion strategol o ran Twristiaeth, Cymunedau a'r Economi.

Dywedwyd bod y cynllun wedi bod yn ased gwerthfawr i drefnwyr digwyddiadau er bod ceisiadau yn amrywio bob tro o ran math, maint, hyd**,** tocynnau, lleoliad ac amcan.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y cynnig wedi codi yn dilyn archwiliad diweddar a oedd yn rhoi cyfle i swyddogion, a ffurfiodd y Panel, adolygu'r broses a'r wybodaeth a ddarparwyd.

O ran sectorau twristiaeth a chymuned, y ddau brif fath o geisiadau a dderbyniwyd am ddigwyddiad, cynigiwyd addasu'r meini prawf sgorio a lefelau cyllido i adlewyrchu'n well yr ystod o geisiadau gan drefnwyr digwyddiadau twristiaeth a chymuned ar raddfa fawr.

Mae'r meini prawf sgorio diwygiedig yn gosod maen prawf penodol ar gyfer y ddau fath yn ogystal â chynnig uchafswm o £2,000 i ddigwyddiadau cymunedol a chadw'r uchafswm o £5,000 ar gyfer digwyddiadau mwy sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth.

Dywedwyd pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddai'r meini prawf sgorio diwygiedig yn cael eu cyfleu'n briodol i aelodau'r cylch digwyddiadau a'u rhoi ar wefan y Cyngor ym mis Ionawr 2020 fel bod y meini prawf diwygiedig yn barod i'w rhoi ar waith ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu cynnal o fis Ebrill 2020 ymlaen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau i feini prawf sgorio a lefelau cyllido'r Cynllun Cymorth Digwyddiadau ar gyfer 2020/21, fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

____________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**